



Papur Gwybodaeth Manwl

Cartrefi Gwell, Cymru Well, Byd Gwell

**Datganiad gan Julie James AC,
Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**

25 Medi 2019

Cefndir

Daeth y newid yn yr hinsawdd yn flaenoriaeth gynyddol bwysig ar gyfer gwleidyddion a'r cyhoedd ym mhob rhan o'r byd, ac roedd Llywodraeth Cymru yn un o'r cyntaf i ddatgan argyfwng hinsawdd ym mis Ebrill 2019. Gosododd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 darged o ostwng allyriadau carbon gan o leiaf 80% o'u lefelau cyn 1990 erbyn 2050; disodlwyd hyn gan benderfyniad Llywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2019 i fabwysiadu'r targed gostwng uwch o 95% a argymhellwyd gan Bwyllgor y Deyrnas Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd (UKCCC) a gosod uchelgais i sicrhau dim carbon net erbyn 2050.



Mae gweledigaeth Gorwelion Tai a gyhoeddodd CHC yn 2017 yn dychmygu Cymru lle mae cartref da yn hawl sylfaenol i bawb ac mae pob cymdeithas tai yn rhannu uchelgais Llywodraeth Cymru i ddatgarboneiddio cartrefi. Mae ansawdd tai cymdeithasol wedi gwella'n sylweddol yn ystod rhaglen bresennol Safon Ansawdd Tai Cymru, sydd i ddod i ben ym mis Rhagfyr 2020.

Prif argymhelliad [adroddiad Cartrefi Gwell, Cymru Well, Byd Gwell](#) yw y dylai Llywodraeth Cymru ymrwmo i raglen datgarboneiddio 30 mlynedd ar gyfer y stoc tai yng Nghymru, gyda thargedau cyflymach ar gyfer aelwydydd mewn tlodi tanwydd a thai cymdeithasol. Bydd hyn yn golygu y bydd angen trawsnewid y ffordd yr ydym yn cynllunio ar gyfer ac yn cyllido'r cartrefi a adeiladwn ac a adnewyddwn.

Ar 24 Medi 2019 gwnaeth Julie James AC, Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, ddatganiad mewn ymateb i argymhellion yr adroddiad. Mae'r wybodaeth ddilynol yn amlinellu safbwynt Llywodraeth Cymru ar adroddiad Grŵp Ymgynghori Datgarboneiddio Cartrefi yng Nghymru.

Y Grŵp Cyngori ac Ymgysylltu gyda Chymdeithasau Tai

Sefydlwyd Grŵp Cyngori ar Ddatgarboneiddio Cartrefi yng Nghymru yng ngwanwyn 2018, gyda Christopher Jofeh o Arup yn gadeirydd. Cafodd y grŵp y cyfrifoldeb o wneud argymhellion i Lywodraeth Cymru ar y ffordd orau i sicrhau rhaglen hirdymor o welliannau tai er mwyn cyrraedd y targedau datgarboneiddio.

Cafodd gwaith y Grŵp Cyngori ei lywio gan [ymchwil](#) a gynhaliwyd gan Ysgol Bensaernïaeth Cymru ym Mhrifysgol Cymru. Cafodd Ysgol Bensaernïaeth Cymru ei chomisiynu gan Lywodraeth Cymru i adolygu effeithlonrwydd mesurau datgarboneiddio hysbys, yn ogystal ag archwilio sut y gallai stoc tai a gridiau ynni presennol Cymru lywio datblygu llwybr datgarboneiddio (gan roi ystyriaeth i'r costau cyfalaf a hefyd gostau ynni).

Yn y 15 mis y gwnaeth y Grŵp Cyngori annibynnol hwn ddatblygu ei argymhellion i Weinidogion, cyfrannodd CHC a'r cymdeithasau tai sy'n aelodau o CHC at y prif grŵp yn ogystal ag is-grwpiau'n ymchwilio materion technegol, seilwaith, llywodraethiant, buddion cymunedol, hyder cwsmeriaid ac ariannol. Cafodd cymdeithasau tai hefyd gyfle i ymgysylltu a chyfrannu drwy gyfres o weithdai, gweminarau a thrafodaethau CHC mewn Grwpiau Cyflenwi Strategol. Yn olaf, ar ddiwrnod lansio adroddiad Cartrefi Gwell, Cymru Well, Byd Gwell, cynhaliodd CHC Gynhadledd Carbon Isel gyntaf. Clywodd cynrychiolwyr gan Julie James AC, Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol), yn ogystal â Chris Jofeh, Cadeirydd y Grŵp Ymgynghori a Dr Ed Green o Ysgol Bensaernïaeth Cymru.



Ymateb i'r argymhellion

Mae Cartrefi Gwell, Cymru Well, Byd Gwell yn gwneud saith o argymhellion a nifer o gamau gweithredu i gyd-fynd â nhw. Mae'r adroddiad yn trafod holl stoc tai Cymru, ym mhob daliadaeth.

Dyweddodd Julie James AC, er gwaethaf yr holl risgiau ac ansicrwydd, ei bod wedi penderfynu derbyn **holl argymhellion yr adroddiad mewn egwyddor**. Er ei bod yn cytuno gyda'r argymhellion, esboniodd yr ansicrwydd parhaus am y ffordd orau i'w cyflawni neu eu gweithredu a'r gwaith pellach sydd ei angen y tu mewn a thu allan i'r llywodraeth i fod yn sicr am eu goblygiadau cost.

Mae'r Gweinidog wedi pwysleisio'r cyfleoedd mawr sy'n gysylltiedig gydag ôl-osod ynni cartref, yn cynnwys: gostwng allyriadau carbon Cymru yn sylweddol, mynd i'r afael â thlodi tanwydd, gwella cysur ac ansawdd cartrefi a chreu swyddi. Cyhoeddwyd y bydd yn sefydlu Grŵp Cyllid Gwyrdd fel yr argymhellir yn yr adroddiad i edrych am ddatrysiadau cyllid blaengar, yn ogystal â meithrin gweithlu medrus i fanteisio ar y cyfleoedd hyn.

Mae datganiad llawn y Gweinidog ar gael yma.

Islaw rydym yn crynhoi'r pwyntiau yn yr adroddiad sy'n effeithio ar gymdeithasau tai ac ymateb y Gweinidog iddynt. Mae rhestr o'r argymhellion hallweddol hyn ar dudalennau olaf y papur gwybodaeth yma.

Ymrwymiad

Argymhelliad cyntaf un Cartrefi Gwell, Cymru Well, Byd Gwell yw bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i raglen datgarboneiddio 30 mlynedd ac yn cadw at hynny. Mae ymrwymiad a sicrwydd yn ganolog i'r agenda yma. Geilw'r adolygiad am gyfeiriad polisi cyson, gyda chefnogaeth traws-bleidiol, er mwyn rhoi hyder i wneuthurwyr, cyflenwyr, cyllidwyr, yswirwyr a pherchnogion cartrefi.

Mae'r adroddiad yn cynnig y dylai pob cartref newydd erbyn 2025 - ac erbyn 2021 ar gyfer pob cartref a ddatblygir gyda chyllid sector cyhoeddus - gael eu codi i safon dim carbon a safonau effeithlonrwydd uwch (Cam Gweithredu 1.3), gan felly osgoi'r angen am ôl-osod yn y dyfodol. Mae hyn yn adlewyrchu'r argymhellion yn yr Adolygiad Annibynnol o'r Cyflenwad o Dai Fforddiadwy.

Mae'r Gweinidog yn rhagweld ymateb gan bleidiau gwleidyddol eraill i'r angen am ymrwymiad i gefnogi rhaglen datgarboneiddio 30 mlynedd.



Uchelgais

Mae'r adroddiad yn argymhell targed ôl-osod uchelgeisiol iawn o EPC A (SAP 90+) erbyn 2050 ar gyfer yr holl stoc tai, gyda thair cymdeithasol a chartrefi mewn tloedi tanwydd yn cael blaenoriaeth dros y 10 mlynedd nesaf. Dywed yr adroddiad fod angen y targedau hyn i gyflawni goblygiadau deddfwriaethol Cymru ac atal canlyniadau gwaethaf newid yn yr hinsawdd.

Mae cartrefi fforddiadwy a chysurus yn sbardun allweddol yn yr agenda yma, nid yn lleiaf oherwydd y rheidrwydd ar Lywodraeth Cymru i osgoi canlyniadau anfwriadol dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Croesewir yr uchelgais yn yr adroddiad. Fel y cydnabyddir yn yr adroddiad, bydd eu cyflawni yn golygu fod angen trawsnewid y cyllid a'r gefnogaeth sydd ar gael i gartrefi newydd a stoc presennol. Dangosodd ein ymgynghoriad gydag aelodau hefyd y bydd cymdeithasau tai angen eglurdeb a sicrwydd - yn ogystal â'r rhyddid i geisio cyfleoedd cydweithio a chreadigol - os ydynt i gyflawni'r targedau hyn ar gyfer cartrefi adeiladu newydd ac ôl-osod cartrefi.

Tanlinellodd y Gweinidog yr angen i ddilyn datrysiadau 'ôl-osod gwell' ar gyfer cartrefi na fedrant gyrraedd EPC Band A ar hyn o bryd. Bydd hyn yn defnyddio datrysiadau presennol i ostwng y galw am ynni ac allyriadau ar gynifer o gartrefi ag sydd modd, gan gyfyngu costau diangen. Y nod yw darparu cartrefi ar gyfer y dyfodol fel y gallant ddod yn rhai di-garbon, yn barod i fabwysiadu datrysiadau'r dyfodol a dulliau gweithredu pan yn hyfyw a diogel gwneud hynny.

Cefnogi a Chyflenwi

Mae sector tai Cymru yn wynebu her sylweddol wrth ddatgarboneiddio, ac mae'r adroddiad yn realistig wrth gydnabod faint o waith sydd ei angen. Mae gan Gymru lawer iawn o stoc 'anodd ei drin' ac mae adeiladau preswyl yn cyfrif am 7.5% o holl allyriadau Cymru.¹

Mae cam gweithredu 4.1 yn cyfeirio at yr angen brys i gynnal modelu manwl o gostau datgarboneiddio, yn arbennig yng nghyswllt y targedau 10 mlynedd fydd yn berthnasol i dai cymdeithasol a chartrefi mewn tloedi tanwydd. Mae'r modelu manwl hwn yn hanfodol, gan fod y targedau ac amserlenni a argymhellir yn Cartrefi Gwell, Cymru Well, Byd Gwell yn seiliedig ar amcangyfrif cost dechreuol; dengys ymchwil Ysgol Bensaernïaeth Cymru y bydd angen £0.5bn - £1bn y flwyddyn am y 10 mlynedd nesaf i ddatgarboneiddio stoc tai Cymru.

¹ <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-06/building-sector-emission-pathway-factsheet.pdf>



Rydym hefyd yn croesawu'r gydnabyddiaeth eglur a chlr o'r angen am ganllawiau a chefnogaeth cynhwysfawr ar gyfer landlordiaid cymdeithasol. Er bod y sector wedi cyflawni llawer dan Safonau Ansawdd Tai Cymru presennol, rydym yn cydnabod yn llawn rôl hanfodol safonau clir a rhwydd eu dehongli.

Mae cam gweithredu 3.5 yn cyfeirio at y cyfle i gymdeithasau tai ymestyn eu gweithgareddau ôl-osod i stoc a sectorau eraill, a nodwn mai mater i bob cymdeithas tai fydd penderfynu p'un ai dilyn hynny ai peidio.

Mae'r adroddiad yn cymeradwyo'r Adolygiad o Dai Fforddiadwy a gyhoeddwyd yn ddiweddar drwy ailadrodd ei gefnogaeth am barhad cyllid gwaddol i gyrff Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr (LSVT) ar y sail eu bod yn cyflawni ar y targedau heriol a osodwyd ar gyfer tai cymdeithasol a nodir yn yr adroddiad. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi y dylai cefnogaeth ariannol hirdymor fod ar gael i gymdeithasau traddodiadol i gyflawni'r uchelgeisiau o fewn yr adroddiad.

Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru gymryd camau fel mater o frys i sefydlu'r costau sy'n gysylltiedig gyda chyflawni'r targedau tai cymdeithasol arfaethedig 10 mlynedd, a chadarnhau'r pecyn cyllid a chymorth fydd yn ei le ar gael ar gyfer cyrff LSVT a chymdeithasau tai traddodiadol. Bydd CHC yn cysylltu gyda Llywodraeth Cymru i drafod y camau nesaf a'r goblygiadau ar gyfer adnoddau, capasiti, sgiliau a chadwyni cyflenwi, yn ogystal â sut y gallwn ni fel sector arddangos gwerth am arian.

Monitro a Gwerthuso

Mae monitro a chasglu data yn hanfodol i fesur cynnydd a rhoi hyder i bawb sy'n gysylltiedig. Mae ansicrwydd yn parhau am effeithlonrwydd hirdymor a chostau rhai mesurau, felly mae'n hanfodol fod data yn glir, dibynadwy a hygyrch. Croesawn yr argymhelliad am fesurau arloesol, a gobeithir y gall y datrysiadau a ddynodir gael eu gweithredu yn eang ac yn gyflym.

Cydweithio

Mae'r agenda yn cynnig llawer o gyfleoedd i'r sector gydweithio gyda'i gilydd, gydag awdurdodau lleol ac mewn partneriaethau eraill. Er enghraifft, gallai cydweithio wrth gaffael helpu i symleiddio cadwyni cyflenwi wrth iddynt aeddfedu, a manteisio i'r eithaf o adnoddau dynol lle mae bylchau sgiliau.



Ein Hymateb

Mae ymrwymiad 30 mlynedd i ostwng allyriadau carbon o'r holl gartrefi yng Nghymru yn argymhelliad beiddgar ac yn un a groesewir o'r adolygiad hwn.

Fel mae'r adroddiad yn cydnabod, ni fydd hyn yn rhwydd. Bydd angen lefelau enfawr o fuddsoddiad gan y llywodraeth i ateb yr her hon a hefyd drawsnewid y ffordd yr adeiladwn ac yr adnewyddwn gartrefi.

Dywedodd Stuart Ropke, Prif Weithredydd CHC: "Gyda'r holl sylw i'r argyfwng hinsawdd yr wythnos yma, rydym yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i ostwng allyriadau carbon o'r holl dai yng Nghymru dros y 30 mlynedd nesaf. Bydd angen lefelau enfawr o fuddsoddiad gan y llywodraeth er mwyn cyflawni ein targedau gostwng carbon a thrawsnewid y ffordd yr adeiladwn gartrefi. Edrychwn ymlaen at weithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid allweddol i gyflawni'r heriau enfawr sy'n ein hwynebu i gyd i adeiladu cymunedau gwyrddach yng Nghymru."

Mae cymdeithasau tai wedi ymrwymo i adeiladu cymunedau gwyrddach fel rhan o'n gweledigaeth o Gymru lle mae cartref da yn hawl sylfaenol i bawb. Edrychwn ymlaen at weithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid allweddol i gyflawni hyn.

Y Camau Nesaf

Rhagwelwn nifer o Grwpiau Gorchwyl a Gorffen yn edrych ar agweddau megis y modelu cost manwl a dull ariannol ar gyfer cymdeithasau tai traddodiadol; caiff CHC a'i aelodau gyfleoedd bellach i gymryd rhan yn y broses.

Nodwn fod yr agenda yn rhan o gyd-destun ehangach. Mae Rheoliadau Adeiladu Rhan L (Cadwraeth Tanwydd a Phŵer) yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd, disgwyliwn ymgynghoriad ar Ofynion Ansawdd Datblygu yn ddiweddarach eleni ac mae Llywodraeth Cymru wrthi'n datblygu strategaeth ar Ddulliau Modern o Adeiladu. Mae cymdeithasau tai yn barod i ymateb i'r her, ond byddant angen sicrwydd hirdymor am feysydd allweddol fel safonau, gwaddol a setliadau rhent er mwyn gwneud hynny.



Argymhellion Allweddol a Chamau Gweithredu

1. Mae'n rhaid i bleidiau gwleidyddol yng Nghymru wneud ymrwymiad strategol i ddatgarboneiddio preswyl cenedlaethol a chadw at hynny
 - i. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ymrwymo'n gyhoeddus yn awr i ddilyn rhaglen datgarboneiddio preswyl 30 mlynedd
 - ii. Dylai pob plaid wleidyddol ar y lefel genedlaethol a lleol wneud ymrwymiad clir i gefnogi cyflawni'r targedau yn Argymhelliad 2
 - iii. Erbyn 2025 fan bellaf, mae'n rhaid i bob cartref newydd yng Nghymru gael eu hadeiladu i fod yn rhai carbon isel, effeithiol o ran ynni a dŵr a gallu gwrthsefyll yr hinsawdd. Rhaid cynnal gwiriadau annibynnol i sicrhau y cyflawnir y safonau uwch hyn. Bydd hyn yn atal yr her i ôl-osod cartrefi rhag cynyddu a dod yn ddrotach. Dylai pob cartref a adeiledir gyda chyllid sector cyhoeddus gyrraedd y targed hwn erbyn 2021 fan bellaf.
 - iv. Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati fel mater o frys i ddechrau datblygu'r argymhellion a'r camau gweithredu yn yr adroddiad hwn i fod yn rhaglen weithredu uchelgeisiol sy'n barod i'w rhoi ar waith yn 2021. Mae'n rhaid i hyn gael ei seilio ar egwyddorion newid ymddygiad a chynllun cyfathrebu yn adlewyrchu hynny.
2. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru osod targedau tai uchelgeisiol i gyflawni ei uchelgais o gyflawni carbon sero net erbyn 2050..
 - i. Erbyn 2050 mae'n rhaid i'r stoc tai gael ei osod i tu hwnt i SAP90 - i gyflawni graddiad EPC Band A, gan gydnabod na all pob cartref sicrhau hyn.
 - ii. Lobio Llywodraeth y Deyrnas Unedig i gefnogi ac annog datgarboneiddio pellach ar y gridiau cyflenwi ynni oherwydd na all Cymru gyflawni'r targed gostwng carbon heb hynny.
 - iii. Dylai Llywodraeth Cymru ddechrau fel mater o frys ar raglen 10 mlynedd i roi blaenoriaeth i ôl-osod cartrefi neilltuol.
 - a. Dylai Llywodraeth Cymru osod targed o EPC Band A ar gyfer cartrefi mewn perchnogaeth gymdeithasol a chartrefi mewn tlodi tanwydd.
 - b. Dylai Llywodraeth Cymru roi cymhelliant i rai a fabwysiadodd ôl-osod cartrefi yn gynnar i darged o EPC Band A.
3. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru roi'r gefnogaeth a dulliau cyflenwi cywir yn eu lle ar draws pob daliadaeth i helpu cyflawni'r targedau.
 - i. Dylai Llywodraeth Cymru gyllido creu a hyrwyddo 'Llyfr Log Cartref' ar gyfer pob cartref i lywio penderfyniadau a buddsoddiadau am effeithiolrwydd ynni.



- ii. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag eraill i greu a chyllido system sicrwydd ansawdd annibynnol sy'n addas ar gyfer cartrefi sengl yn ogystal â phrosiectau aml-annedd.
 - iii. Sicrhau fod y system ansawdd newydd yn addas a hygyrch i fusnesau bach a chanolig yng Nghymru yn ogystal â chwmnïau mwy ac sydd oll â'r mynediad i'r sgiliau a hyfforddiant maent ei angen i fanteisio ar raglen ôl-osod 30 mlynedd.
 - iv. Annog a chefnogi busnesau yng Nghymru i ddarparu prosiectau fydd yn arwain at y buddion cymunedol gorau.
 - v. Annog a chefnogi landlordiaid cymdeithasol i ymestyn eu gweithgareddau uwchraddio preswyl tu hwnt i'w portffolios eu hunain i helpu sicrhau gwelliannau i gartrefi perchen-feddianwyr a gan landlordiaid sector preifat.
4. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru, gan weithio gydag eraill, ddatblygu pecyn holistig o gymorth ar draws pob daliadaeth i gymell a hwyluso gweithredu.
- i. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru gynnal modelu manwl fel mater o frys o'r costau sy'n gysylltiedig gyda'r targedau a nodir yn Argymhelliad 2. Bydd hyn yn sail i roi blaenoriaeth i weithredu cynnar yn ôl daliadaeth, math a daearyddiaeth ac yn benodol i ddilysu'r targedau 10 mlynedd.
 - ii. Parhau Safon Ansawdd Tai Cymru ar gyfer landlordiaid cymdeithasol a'r £108m y flwyddyn o gyllid yn gysylltiedig ag ef, ar y sail eu bod yn cyflawni ar y targedau heriol a nodir yn Argymhelliad 2.
 - iii. Rhoi arweiniad a chefnogaeth i landlordiaid cymdeithasol i'w galluogi i gyflawni'r targedau newydd heriol yn Argymhelliad 2.
 - iv. Canfod datrysiad ariannol ar gyfer landlordiaid cymdeithasol cofrestredig traddodiadol nad ydynt ar hyn o bryd yn derbyn adnoddau i'w galluogi i gyflawni'r targedau heriol a ddisgrifir yn Argymhelliad 2.
 - v. Sicrhau diwygio rhaglenni presennol cyllid sector cyhoeddus sy'n cefnogi gwella cartrefi i fod yn gydnaws gyda'r deilliannau a'r targedau a argymhellir yn yr adroddiad.
5. Dylai Llywodraeth Cymru gasglu data am statws a chyflwr y stoc tai i fod yn sail i benderfyniadau yn y dyfodol a mesur cynnydd tuag at dargedau.
- i. Dylid defnyddio'r holl wybodaeth berthnasol, yn cynnwys data ar ddefnydd ynni cyn ac ar ôl gweithgareddau ail-osod i fod yn sail wrth fesur cynnydd, datblygu polisi a buddsoddi. Bydd angen i'r broses casglu data fod yn sail i'r Cynllun Cyflenwi Carbon Isel.
6. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru barhau i fonitro a phrofi datrysiadau newydd i ddatgarboneiddio cartrefi.



- ii. Sefydlu cronfa o £100 miliwn o leiaf i barhau tan 2030 i dalu am ddatblygu profion graddfa fawr a graddfa fach ar ddatrysiadau blaengar - heb eu cyfyngu i ddatrysiadau technegol - fydd yn helpu i ddatgarboneiddio cartrefi Cymru. Mae Rhaglen Tai Arloesol lwyddiannus Llywodraeth Cymru yn rhoi model ar gyfer un.
7. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid wneud y defnydd mwyaf o gymunedau, rhwydweithiau, cymdeithasau a chyrff trydydd sector i helpu i ddatgarboneiddio cartref.
- i. Annog a chefnogi ymgyfraniad cymunedol wrth ddatblygu a chyflenwi rhaglen newydd.